

## Pwyllgor Ieuenctid Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP).

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghoetiroedd Cymunedol Portfield  
Gate 12/07/22 am 6.00pm

Aelodau'r Pwyllgor Ieuenctid oedd yn bresennol yn y cyfarfod:

Geraint ( 😊 / 😊 )

Noah (7/8)

Sara ( 7/7.5)

Lili (6/7)

Seb (4/4)

Demi (8.5/7.5)

Rebecca (7/8)


Hwyluswyr: Tom Moses 9.5/9.5, Sarah Hoss (APC) 8/9

Ymwelwyr: Amherthnasol

### Materion a drafodwyd

Eitem ar yr Agenda	Trafodaeth	Camau Gweithredu
1	<b>Croeso a chyflwyniadau / Mewn-gofnodi ac allan-gofnodi fel uchod mewn cromfachau.</b>	
2	<b>Recriwtio i Genhedlaeth Nesaf y Parc Cenedlaethol (Pwyllgor Ieuenctid a Pharcmy'n Ieuenctid)</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar sut y gallai'r grŵp recriwtio aelodau newydd, gan ein bod yn ymwybodol y bydd rhai o aelodau presennol y Pwyllgor yn gadael i fynychu'r Brifysgol fis Medi – mae bob amser wedi bod yn anodd cymryd rhan o bell fel myfyriwr.</li><li>• Awgrymwyd y gellid defnyddio fideos newydd yn cofnodi gwaith y Pwyllgor Ieuenctid wrth recriwtio. Roedd y fideograffydd, Dave Welton yn dal yn y broses o olygu'r fideos, ond dylent fod yn barod yn gynnar yn yr Hydref.</li><li>• Trafododd y cyfarfod sut y gellid defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn fwy effeithiol wrth recriwtio. Ymhlith yr awgrymiadau oedd post byr, deniadol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os yn bosibl, defnyddier llwyfannau heblaw Facebook.</li><li>• Dylai'r Genhedlaeth Nesaf fynychu Ffair y Glas yng Ngholeg Sir Benfro fis Medi hwn.</li></ul>	<b>Graham Peake a'r Swyddog Ieuenctid a Chynhwysiant sydd newydd ei benodi -</b> Gweithio gyda'r pwyllgor i gynhyrchu fersiwn terfynol y gellir ei ddefnyddio mewn ymgyrch i recriwtio aelodau newydd.

	<p>Roedd y grŵp wedi clustnodi'r pwyntiau allweddol y gellid eu pwysleisio mewn ffilm ac wrth recriwtio yn gyffredinol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid dim ond yn eistedd o gwmpas yn sgwrsio, ond yn gweithredu.</li> <li>• Awyr Agored - 'ymgysylltu â natur'</li> <li>• Buddion iechyd meddwl</li> <li>• Hwyl, pleserus ac 'ymlaciol'</li> <li>• Profiad da ar gyfer CV's / datganiadau personol ac ati.</li> </ul> <p><b>Gweithgor Recriwtio i'w sefydlu. Demi, Sara, Lili, Rebecca, Noah</b></p>	<p><b>Graham Peake a'r swyddog leuenctid a Chynhwysiant sydd newydd ei benodi i drefnu cyfarfod</b></p>
3	<p><b>Cod Ymddygiad y Genhedlaeth Nesaf (i gyfranogwyr)</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Roedd y pwyllgor wedi cynhyrchu drafft diwygiedig o'r Cod Ymddygiad. Mae'r ddogfen yn manylu ar y 'modd yr ydym yn gweithio' ac yn clustnodi'r arferion da a'r gweithdrefnau y dylem eu dilyn.</li> </ul>	<p><b>Graham Peake i ddarparu diweddariad drafft ar gyfer y cyfarfod.</b></p>
4	<p><b>Maniffesto leuenctid APCAP</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Roedd angen cwblhau fersiwn wedi'i ddiweddarau o'r Maniffesto a chyflwyno'r Maniffesto i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol. Ymgynghorwyd â'r bobl ifanc sy'n rhan o'r Genhedlaeth Nesaf ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig i'r ddogfen wreiddiol, ac rydym yn awr yn barod i gytuno ar ddrafft terfynol*.</li> <li>• *Cytunwyd y dylid adolygu'r maniffesto yn rheolaidd.</li> <li>• Gellir defnyddio'r ddogfen hefyd i recriwtio aelodau newydd i'r Pwyllgor leuenctid.</li> </ul>	<p><b>Tom Moses i weithio gyda phobl ifanc ar fersiwn wedi'i ddiweddarau a'i gyflwyno i'r Pwyllgor</b></p>
5	<p><b>Gefeillio â phartneriaid ieuenctid fel rhan o Fenter Ieuenctid Euro Parcs</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Roedd aelodau'r Pwyllgor Ieuenctid yn awyddus i fynd ar drywydd cyfleoedd gefeillio, ond cytunwyd mai cyfyngedig oedd y capasiti ar hyn o bryd.</li> </ul>	
6	<p><b>Prosiect LIAGC Ieuenctid (CWBR) – Tom Moses yn cyflwyno ar y prosiect y mae bellach yn rhan ohono sy'n ceisio cynnwys mwy o bobl ifanc mewn prosesau democrataidd yng Nghymru.</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mynegodd rhai o aelodau'r Genhedlaeth Nesaf ddiddordeb mewn cymryd rhan/darganfod mwy am y prosiect LIAGC gan y barnwyd bod cysylltiadau rhwng y nodau a'r cyfleoedd a gyflwynir gan y prosiect â'r Genhedlaeth Nesaf.</li> <li>• Dywedodd 3 aelod o'r Genhedlaeth Nesaf eu bod yn dymuno bod yn rhan o'r grŵp llywio ar gyfer LIAGC Ieuenctid – Noah, Demi a Lili.</li> <li>• Trafodwyd cyfleoedd i gynnal cwrs preswyl ar thema awyr agored yn/o amgylch y Parc Cenedlaethol.</li> </ul>	<p><b>Tom Moses i awgrymu dyddiadau ar gyfer digwyddiad preswyl a chysylltu â'r rhai sydd â diddordeb mewn cymryd rhan yn y prosiect LIAGC.</b></p>
7	<p><b>Prosiect graffiti – Banc Ieuenctid Sir Benfro</b></p>	

	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r prosiect, a ariennir gan Fanc Ieuenctid Sir Benfro, wedi'i gwblhau yn rhannol gyda'r tri bwrdd 8'x4' a ddechreuwyd gan y Pwyllgor Ieuenctid fis diwethaf wedi'u cwblhau gan Lloyd the Graffiti.</li> <li>Dal angen ychwanegu geiriau gan Dylan, (cynrychiolydd Ieuenctid yn APCBB, a ymunodd â'r prosiect)</li> </ul>  <p><b>Mae angen penderfyniad ar y camau nesaf - dyma'r awgrymiadau:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Hyrwyddo cyfleoedd i bobl ifanc anfon lluniadau / lluniau o weithgareddau cadarnhaol yn y dirwedd drwy ddatganiadau i'r wasg / digwyddiadau cymdeithasol ac ati, yna eu glynu ar fwrdd / eu farneisio ac annog ysgolion / clybiau Ieuenctid / lleoliadau eraill gan gynnwys y Parc Cenedlaethol i gynnal a rhedeg gweithgareddau ymgysylltu ar gyfer eu disgyblion.</li> <li>Ceisio cael byrddau mewn ysgolion / clybiau Ieuenctid / lleoliadau eraill gan gynnwys y PC, ac i'r staff annog pobl ifanc i ymgysylltu drwy ychwanegu ffigurau sy'n cael eu casglu a'u dogfennu / gwobr yn bosibl. Adnodd y gellir ei aildefnyddio...</li> </ul> <p><b>Slot wedi'i archebu yn Ysgol Penrhyn Dewi ar yr 28ain o Fedi (am 3 diwrnod).</b></p>	<p><b>Aelodau'r Genedlaeth Nesaf a'r Tîm Darganfod i weithio tuag at gael y 3 panel i'w harddangos yn yr ysgol.</b></p>
8	<p><b>Datblygu'r Pwyllgor Ieuenctid – camau nesaf Parciau Cenedlaethol Cymru / Parciau Cenedlaethol y DU</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Er bod posibilrwydd o hyd y bydd Sir Benfro yn cynnal digwyddiad Ieuenctid Parciau Cenedlaethol y DU yr Hydref hwn, ni chafwyd unrhyw ddiweddariad gan y cynrychiolwyr.</li> <li>Mae cyfarfod rhwng timau Ieuenctid APC Bannau Brycheiniog a Chenedlaeth Nesaf Sir Benfro wedi'i gynllunio ar gyfer yr Hydref hwn. Yn parhau i gydweithredu ar y gwaith yn y maes hwn.</li> </ul>	<p>Tom Moses a'r Swyddog Ieuenctid a Chynhwysiant i ddilyn hyn ymhellach.</p> <p>Graham Peake a'r Swyddog Ieuenctid a Chynhwysiant i roi'r wybodaeth ddiweddaraf</p>
9	<p><b>Dyddiadau'r haf / dyddiad y cyfarfodydd nesaf</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ieuenctid i'w bennu ar gyfer gwyliau'r haf.</li> <li>Cyfarfod nesaf Parcmyn Ieuenctid - 7fed o Awst a'r 4ydd o Fedi.</li> </ul>	

